

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 2 Mai 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

Gareth Jones, Cadeirydd	Plaid Cymru	Conwy
Mick Bates	Democratiaid Rhyddfrydol	Sir Drefaldwyn
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jane Davidson, Gweinidog Cynulliad	Llafur	Pontypridd
Jocelyn Davies	Plaid Cymru	Dwyrain De Cymru
Huw Lewis	Llafur	Merthyr Tudful a Rhymni
Jonathan Morgan	Ceidwadwyr	Canol De Cymru
Alun Pugh, Dirprwy Weinidog	Llafur	Gorllewin Clwyd
Owen John Thomas	Plaid Cymru	Canol De Cymru

**Ymddiheuriadau**

Lorraine Barrett

Cynog Dafis

Janice Gregory

Helen Mary Jones

## **Dirprwyadau**

Christine Chapman yn dirprwyo dros Lorraine Barrett

Jocelyn Davies yn dirprwyo dros Cynog Dafis

Owen John Thomas yn dirprwyo dros Helen Mary Jones

## **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Chris Reading

Clerc

Holly Pembridge

Dirprwy Glerc

## **Swyddogion**

### **Yn bresennol:**

Richard Davies

Cyfarwyddwr, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg

Keith Davies

Pennaeth, yr Isadran Safonau a Pherfformiad

Andrew Felton

Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

### **Yn bresennol:**

## **Pwyllgor Therapi Iaith a Lleferydd Iaith Gymraeg**

Dr Sian Munro

Pennaeth y Ganolfan Therapi Iaith a  
Lleferydd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd

Rhian Huws

Therapydd Iaith a Lleferydd,  
Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion

Dorothea Clowes

Rheolwraig Therapi Iaith a Lleferydd,  
Ymddiriedolaeth NHS, G.O. Cymru

## **Mudiad Ysgolion Meithrin**

Hywel Jones

Cyfarwyddwr

Rita Jones

Cyfarwyddwraig Gynorthwyol

## **Disgyblion Ysgol**

### ***Ysgol Gyfun Mynwy***

Danielle Homer

Helen Baylis

Ben Sherwood

### ***Ysgol Emrys ap Iwan***

Jessica Roberts

Joshua Langden

### ***Ysgol Eirias***

Katie Davies

Ifan Tang

## Hefyd yn bresennol

Catrin Redknap

Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar yr Iaith Gymraeg mewn Addysg

--	--

## Datganiadau o Fuddiant

Cynog Dafis	Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig
Jane Davidson	Athrawes Gofrestredig, ei gŵr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith NATFHE
Gareth Jones	Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Huw Lewis	Athro Cofrestredig
Mick Bates	Athro Cymwysedig; ei wraig yn Bennaeth, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgor ACCAC a phwyllgor Estyn
Jonathan Morgan	Llywodraethwr Ysgol
Lorraine Barrett	Llywodraethwraig Ysgol
Alun Pugh	Ei wraig yn ddarlithydd coleg

## Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

- Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd.

## Eitem Un: Adolygiad Polisi – Yr iaith Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth ar Lafar – Pwyllgor Therapi Iaith a Lleferydd Iaith Gymraeg (WLSLTC) a'r Mudiad Ysgolion Meithrin

### *Papur: ELL 08-02(p.1)*

1. Siaradodd Dr Munro gyda sleidiau, gan amlygu'r pwyntiau a godwyd yn y papur.
2. Amlygodd Hywel Jones hefyd y prif bwyntiau a godwyd ym mhapur y Mudiad Ysgolion Meithrin.

3. Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyflwyniadau llafar cyn gwahodd cwestiynau gan yr Aelodau. Codwyd y materion canlynol:

1. Cafwyd peth pryder bod yna achosion pryd yr oedd pobl broffesiynol wedi cynghori rhieni i beidio â thrin eu plant a oedd ag anghenion therapi iaith a lleferydd (SLT), drwy gyfrwng y Gymraeg. Holodd yr aelodau sut y gellid newid yr agweddau negyddol hyn. Dywedodd yr WLSLTC fod agweddau wedi bod yn newid yn raddol, gan gynnwys agweddau therapyddion iaith a lleferydd eu hunain. Yr oedd yn bwysig, wrth hyfforddi therapyddion di-Gymraeg, y'u gwneir yn ymwybodol o ddwyieithrwydd. Yr oedd maes pobl broffesiynol eraill y maes iechyd mor eang fel y byddai'n amhosibl i therapyddion iaith a lleferydd gynnwys yr holl swyddogaethau/meysydd hyn.

  - Cafwyd peth trafodaeth am amseroedd teithio plant i feithrinfeydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gofynnwyd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) a oedd yn cyfranogi mewn trafodaethau partneriaeth dysgu cynnar gydag awdurdodau addysg lleol (AALLau). Holodd yr aelodau a gafodd Bwrdd yr iaith Gymraeg unrhyw gwynion am AALLau nad oeddynt yn glynu wrth eu cynlluniau iaith arfaethedig o safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd MYM ei fod yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth ac, ambell dro, y ceid penderfyniadau a gâi eu gwyrddroi gan AALLau. Yr oedd MYM yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Bwrdd yr Iaith) ar y mater hwn ac arferai dynnu ei sylw at unrhyw achosion a berai bryder.
  - Mewn ymateb i gwestiwn am yr arian a oedd ar gael gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar gyfer *Educare*, atebodd MYM ei fod wedi tynnu sylw Aelodau'r Cynulliad at y mater hwn, gan yr ymddangosai nad oedd yr arian hwn, o bosibl, wedi'i anelu at ddarpariaeth feithrin. Yr oedd yna angen am feithrinfeydd gan fod busnesau newydd yn cael eu sefydlu; yr oedd yna achos cryf dros sefydlu meithrinfeydd cymuned, meithrinfeydd y gallai busnesau gyfranogi ynddynt. Gwahoddodd Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Amcan Un, MYM i ysgrifennu at ei phwyllgor, er mwyn iddo ymchwilio i'r mater hwn.
  - Holodd yr aelodau am yr arian a oedd ar gael i gynnal cyrsiau/hyfforddiant iaith Gymraeg i staff feithrin. Dywedodd MYM ei fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda cholegau addysg bellach (AB) ym mhob cwr o Gymru. Yr oedd cyrsiau ar gael ym mhob Coleg AB yn Ne Ddwyrain Cymru.
  - Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod, pe byddai'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei hystyngi, a fyddai yna unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda'r Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol i gyflwyno darpariaeth feithrin ddwyieithog. Esboniodd MYM fod ei ddarpariaeth yn seiliedig ar addysg drwytho. Serch hynny, yr oedd yn rhaid cydnabod, pe byddai rhai rhieni yn erbyn trwytho llwyr, y byddai'n rhaid cael system lle byddai'r ddarpariaeth yn cael ei pharatoi yn gyfartal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yr oedd yn rhaid cael hyfforddiant er mwyn i'r staff addysgu weithio'n ddwyieithog. Datganodd MYM y byddent yn fodlon gweithio ochr yn ochr â'r Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol gan eu bod eisoes wedi cydweithio'n agos ar gynllun ar y cyd.
  - Gwelwyd peth diddordeb yn y posibilrwydd y gallai cynlluniau megis Cychwyn Cadarn a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf gynnig strwythurau cefnogi i'r canolfannau cylchoedd meithrin. Yr oedd MYM wedi bod yn gysylltiedig â phrosiectau Cychwyn Cadarn yn Ne ddwyrain Cymru. Gellid cael problemau mewn ardaloedd gwledig, fodd bynnag, oherwydd y gall nifer y plant sy'n mynychu cylch meithrin fod yn fychan iawn. Yr oedd y cylchoedd meithrin yn derbyn plant o ddwyflwydd a hanner ymlaen. Pe byddai'r cylchoedd meithrin yn colli eu plant tair blwydd oed, ni fyddai'r plant a fyddai'n weddill yn ddigon i gynnal y grŵp.

- Gofynnodd yr aelodau i'r WLSLTC a roddwyd unrhyw ystyriaeth i brofiad gwaith i ddisgyblion ac, yn wir, athrawon dan hyfforddiant ym maes SLT. Awgrymwyd, o bosibl, y byddai yna bosibilrwydd o gynnwys plant ysgol gynradd mewn cynlluniau o'r fath. Esboniodd yr WLSLTC ei fod, ar hyn o bryd, yn cynnal prosiect fideo gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf: yr oedd wrthi'n cael ei brofi gyda'r disgyblion ac, yn ddiweddarach, y byddai'n cael ei ddsbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru. Yr oedd cyfle i fewn-fwydo gyda'r Cwricwlwm 2000 h.y. gofal iechyd a seicoleg ayb. ond yr oedd yn rhaid cael digon o nifer er mwyn iddo weithio. Gofynnodd yr aelodau sut y gellid gwneud deunyddiau addysgu yn 'blant-gyfeillgar'. Disgrifiodd yr WLSLTC sut yr oedd athrawon dan hyfforddiant yn mynychu grwpiau chwarae. Yn ystod ail flwyddyn yr hyfforddiant, byddent yn mynychu clinigau ac yn cysylltu gyda thiworiaid. Yn y flwyddyn olaf, byddai'r myfyrwyr yn mynd ar leoliad anghenion arbennig. Yng Ngogledd Cymru, byddai disgyblion y bumed flwyddyn ac athrawon gyrfaoedd yn cael eu hysbysu a gallai disgyblion ysgol fynychu diwrnod agored mewn canolfannau hyfforddi mewn dau leoliad gwahanol.
- Yr oedd peth pryder am fod rhieni yn dewis peidio â rhoi addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant, plant y mae arnynt angen darpariaeth SLT/anghenion arbennig, gan eu bod yn credu nad oedd y ddarpariaeth ar gael. Dywedodd yr WLSLTC nad oedd hyn yn broblem yng Ngogledd Cymru gan fod therapi dwyieithog ar gael. Er hynny, yr oedd yn amlwg fod rheolwyr mewn ardaloedd rhanbarthol eraill wedi cael problemau o'r fath. Drwyddo draw, yr oedd ar blant angen therapi dwyieithog. Pwysleisiwyd bod gan y therapydd SLT arferol, yn rhanbarth y Rhondda, lwyth achosion mawr iawn. Cafwyd achosion hefyd lle lleolwyd plant yn amgylcheddau'r brif ffrwd a'u bod yn amlwg yn methu ag ymdopi. Papur James Law? – cyswllt rhwng ysgol y brif ffrwd ac addysg arbennig. Unwaith eto, yr oedd yn holl bwysig cael digon o nifer (o therapyddion). Ychwanegodd MYM fod y cynllun TWFF gan Fwrdd yr Iaith yn beirianwaith gwerthfawr.
- Yr oedd yr aelodau'n pryderu, pe byddai canran y boblogaeth cyfrwng Cymraeg yn tyfu'n fwy na nifer y therapyddion sydd ar gael, y gallem weld gwahaniaethu cadarnhaol. Dywedodd yr WLSLTC na chredai y byddai hyn yn digwydd – yn syml byddai'n rhaid cael rhagor o therapyddion. Yr oedd amrywiaeth y gweithlu yn amlwg ac yr oedd yna ddiffyg cynrychiolaeth o blith grwpiau lleiafrifol, pobl anabl a dynion. Pe byddai'r therapyddion yn ddwyieithog, byddent, yn amlwg, yn gallu gweithio gyda phobl uniaith. Hefyd, yr oedd y boblogaeth yr oedd arni angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i lledaenu ledled Cymru gyfan. Teimlwyd bod Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd wedi bod yn ddeheuig ac wedi anelu'n bendant at gynhyrchu therapyddion i Gymru. Cafwyd addewid o astudiaeth ymarferoldeb yng Ngogledd Cymru ond ni chyflawnwyd yr addewid hon.
- Gofynnodd un aelod i MYM esbonio'r gwrth-ddweud posib yn ei bapur: yn gwahodd llywodraeth leol i wneud rhagor o fuddsoddiadau, ond ar yr un pryd yn gofyn i'r Cynulliad gyfarwyddo Llywodraeth Leol i weithredu ei chynlluniau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dywedodd MYM fod ei sylwadau ar y mater hwn yn berthnasol i'r canolfannau integredig yn benodol, canolfannau a sefydlwyd gydag arian y Cynulliad. Yr oedd yn rhaid cael arweiniad pendant gan y Cynulliad.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod hi eisiau polisi a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Yr oedd hi wedi cyfarwyddo WAGSEN i wneud cynllun gweithredu a oedd yn cynnwys cynigion tymor byr, canolig a hir. Serch hynny, yr oedd y Gweinidog yn bryderus ei bod, yn ystod cyfarfod is-grŵp o WAGSEN, wedi cael ei hysbysu y byddai rhagor o bobl yn cymryd cyrsiau i weithio gydag oedolion yn hytrach na chyda phlant (drwy gyfrwng y Gymraeg). Dywedodd yr WLSLTC fod graddedigion diweddar wedi tueddu i weithio gydag oedolion ond na fu hyn yn wir erioed. Teimlent mae'n debyg y byddai yna symudiad tuag at ragor o raddedigion yn dewis gweithio gyda phlant yn y dyfodol agos. Yng Ngogledd Cymru cafwyd problemau wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion. Rhoddai swyddi

cylchynol (fel yng Ngwynedd ac Ynys Môn) gyfle i raddedigion symud o gwmpas a phrofi gwaith ym mhob maes. Roedd hyn wedi'i seilio ar gyngor oddi wrth y Coleg Brenhinol Therapi Iaith a Lleferydd.

- Gofynnodd y Gweinidog i MYM a gredai fod dysgu strwythuredig drwy chwarae yn bwysig i ddatblygu'r iaith Gymraeg mewn plant ifanc. Cytunai MYM gan ddweud y dylid defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth a'r tu allan i safleoedd ffurfiol. Dylid rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r ddwy iaith yn rhwydd. Yr oedd cydrannau'r ymennydd sy'n delio â ieithoedd yn gorgyffwrdd mewn plant, gan ei gwneud yn hawdd iddynt ddeall ieithoedd.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y gost o gynhyrchu deunydd safonedig, dywedodd yr WLSLTC na allai roi union ddyfynbris ond bod nifer yr oriau gwaith yn helaeth. Ychydig iawn o asesiadau safonedig a oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd yr WLSLTC wrthi'n pennu costau dau brosiect. Wrth redeg y math hwn o brosiect, byddai cyfieithiadau'n ofynnol, yn ogystal â chynorthwy-ydd ymchwil amser llawn gyda phrofiad o gynnal profion.
- Gwelwyd peth diddordeb yn y posibilrwydd o sefydlu ail ganolfan iaith a lleferydd y tu allan i Gaerdydd, yn y Gogledd o bosibl. Dywedodd yr WLSLTC ei fod yn edrych i symud ymhellach ac y byddai'n defnyddio cymaint o leoliadau ag y gallai, gan ddefnyddio cyfleusterau megis fideo-gynadledda. Yr oedd yna angen brys am astudiaeth ymarferoldeb.
- Gofynnodd un aelod a allai awdurdodau lleol gydweithredu drwy ffurfio rhanbarthau. Dywedodd yr WLSLTC y ceid cydweithrediad ar hyn o bryd ond bod hyn yn anwybyddu'r prinder mewn rhai rhanbarthau. Dywedodd MYM fod yna angen sicrhau nawdd ychwanegol ar gyfer plant tair blwydd oed er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) cyfrwng Cymraeg. Hefyd, byddai adolygiad o gynlluniau chwarae yn fanteisiol. Cefnogai'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ymyriad buan.

## **Eitem Dau: Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth Lafar – Disgyblion Ysgol**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd ddisgyblion ac athrawon o dair ysgol. Cyflwynodd y disgyblion eu hunain ac yna gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Crybwyllodd y disgyblion yn eu cyflwyniadau y credent nad oedd Cymraeg gorfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) yn ddymunol. Gofynnodd yr aelodau, gan fod hwn yn bwnc craidd gorfodol, pam na theimlai'r disgyblion yr un anhoffter tuag at bynciau gorfodol eraill megis Mathemateg neu'r Saesneg. Yr oedd rhai disgyblion wedi cynnal fforwm chweched dosbarth ar yr iaith Gymraeg a'r ymateb cyffredinol oedd bod pynciau megis Mathemateg a Gwyddoniaeth yn ieithoedd byd-eang y gellid eu defnyddio mewn unrhyw fan yn y byd. Nid oedd y disgyblion yn dysgu Cymraeg fel mamiaith: Saesneg oedd eu mamiaith. Felly, nid oedd ganddynt unrhyw awydd 'gwrthryfela yn erbyn

eu mamiaith'. Teimlwyd bod yna rai disgyblion o bosibl nad oedd ganddynt ddawn naturiol tuag at ieithoedd ac y gallent, o'r herwydd, deimlo dan anfantais. Hefyd, teimlai rhai disgyblion mai diwerth oedd dysgu'r Gymraeg, os oeddent yn bwriadu symud o Gymru i ddilyn addysg uwch, cael gwaith a/ neu os oeddent yn byw ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Awgrymodd disgybl arall, pe byddai plant meithrin/oed ysgol gynradd yn dod i fwy o gysylltiad gyda'r iaith Gymraeg, y byddai hynny'n eu gwneud yn gyfarwydd ar lefel gynharach gan baratoi'r ffordd ar gyfer yr ysgol uwchradd. Credai disgybl arall fod cynnwys cyrsiau yn bwysig. Awgrymwyd, yn y fforwm chweched dosbarth, y gellid addysgu rhagor am hanes a diwylliant Cymru.

- Cafwyd peth trafod am a oedd disgyblion yn falch o fynegi eu hunaniaeth Gymreig drwy ddefnyddio'r iaith Saesneg. Dywedodd y disgyblion eu bod yn falch o fynegi eu hunaniaeth Gymreig drwy ddefnyddio'r Saesneg. Yr oedd un disgybl, serch hynny, wedi profi agweddau negyddol gan siaradwyr Cymraeg.
- Gofynnodd yr aelodau i'r disgyblion wneud sylw ar sut y gellid orau gynnwys y cysyniad o hunaniaeth Gymreig yn y cwricwlwm. Awgrymwyd y gallai'r testunau gosod ar gyfer gwersi Saesneg a hanes gael eu dethol i adlewyrchu hanes a diwylliant diweddar Cymru.
- Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod a allai'r disgyblion ddeall Cymraeg y Cadeirydd heb ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar-y-pryd. Atebodd pob disgybl na allent ei ddeall. Teimlai'r disgyblion, drwy ddysgu Cymraeg fel ail iaith, y dysgwyd iddynt ddim ond digon i gwmpasu'r maes llafur a phasio eu harholiad.
- Gofynnwyd i'r disgyblion a oedd eu hathrawon yn frwdfrydig dros addysgu Cymraeg. Ymatebodd y disgyblion drwy ddweud bod eu hathrawon, ar y cyfan, yn frwdfrydig dros addysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Serch hynny, ambell dro, yr oedd ganddynt ddsbarthiadau o oddeutu 30 o ddisgyblion a'i bod yn anodd i'r athrawon roi sylw personol i'r disgyblion.
- Trafodwyd rhagor ar astudio'r diwylliant Gymreig a holodd yr Aelodau sut y rhagwelai'r disgyblion y gellid addysgu hwn. Credai un disgybl fod yr enw 'gwersi Cymraeg' yn hen ac yn afraid. Nid oedd, o anghenraid, angen addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond y gellid cyflwyno geirfa gyffredinol. Ar hyn o bryd, rhoddwyd nifer fawr o eirfa i'r disgyblion, ychydig iawn o gyfarwyddyd gramadegol ac ni allent gynnal sgwrs sylfaenol.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn am gysylltu swyddi penodol gyda'r iaith Gymraeg, atebodd y disgyblion eu bod yn cysylltu addysgu, y cyfryngau a swyddi'r sector cyhoeddus gyda'r iaith Gymraeg. Serch hynny, teimlwyd bod hyn yn seiliedig ar agweddau tybiedig yn hytrach nag ar dystiolaeth bendant. Dywedodd y disgyblion, gan fod pawb bron yng Nghymru yn gallu siarad drwy gyfrwng y Saesneg, y caiff y Gymraeg ei dirnad yn iaith nad oedd angen ei defnyddio.
- Holodd y Cadeirydd y disgyblion a deimlent fod y system addysg wedi eu siomi, o safbwynt addysgu'r iaith Gymraeg a'r diffyg cyfle a gawsant, wedi hynny, i ddefnyddio'r iaith yn effeithiol. Holodd y Cadeirydd a oedd y disgyblion yn dal eisiau dysgu Cymraeg. Dywedodd yr holl ddisgyblion y byddent yn hoffi pe gallent siarad Cymraeg. Yr oedd un disgybl yn bwriadu dysgu Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.
- Cydnabu'r Gweinidog awydd y disgyblion i ddysgu rhagor am y diwylliant Gymreig ond dywedodd nad yw ysgolion yng Nghymru, o bosibl, yn manteisio ar y Cwricwlwm Gymreig. Yr oedd Estyn hefyd wedi cydnabod hyn yn ei dystiolaeth yn ddiweddar gerbron y pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog o

bosibl bod angen adolygu strwythur a chynnwys cyrsiau Cymraeg ail iaith. Gofynnodd y Gweinidog i'r disgyblion a fyddent yn gwerthfawrogi gwerth dysgu Cymraeg pe adolygwyd y cwrs. Dywedodd y disgyblion eu bod eisiau gallu cynnal sgysiau sylfaenol. Teimlent y byddai'n ddefnyddiol defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng i addysgu pynciau eraill.

- Gofynnodd y Gweinidog hefyd i'r disgyblion beth oedd eu barn ar ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg (trwytho) mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Cafwyd atebion cymysg gan y disgyblion: credai rhai y byddai'n didoli disgyblion, er y byddai'n fanteisiol cael cyfleoedd/dewisiadau. Teimlai eraill y byddai'n peri problemau pe bai rhieni a'u plant eisiau darpariaeth wahanol.
- Yr oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod a gredai'r disgyblion fod yna amgyffred y byddent dan anfantais ym marchnad gyflogaeth Cymru, pe na baent yn siarad Cymraeg. Hefyd, gofynnwyd i'r disgyblion wneud sylw ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg i'r dyfodol a'r posibilrwydd iddi gael ei defnyddio mewn meysydd heblaw am addysg, er enghraifft – ym myd busnes. Disgrifiodd un disgybl sut yr oedd Japanaeg wedi tyfu yn iaith ryngwladol busnes a diwydiant ac amheuai a oedd llawer o fentrau yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd/perthnasedd yr iaith Gymraeg. Dywedodd disgybl arall ei fod eisiau aros yng Nghymru i ddysgu Cymraeg. Y teimlad cyffredinol oedd, pe siaradwyd Cymraeg yn fwy eang, yna mae'n bosibl y byddai pobl ifanc yn gwerthfawrogi perthnasedd a gwerth yr iaith Gymraeg.
- Cododd un aelod y mater o symboleiddiaeth a gofynnodd pe addysgwyd y Gymraeg mewn modd gwahanol, a fyddai agweddau'n newid. Teimlai dau ddisgybl fod y cwrs Cymraeg cyfredol mewn ysgolion yn trin yr iaith Gymraeg yn wamal, yn ei hisraddio ac wedi gwneud iddi ymddangos yn eilradd i'r iaith Saesneg.
- Gwahoddwyd y disgyblion i wneud sylw ar eu hamgyffred o addysgu ieithoedd modern tramor. Dywedodd y disgyblion wrth yr aelodau na ellid cymharu'r Gymraeg â ieithoedd modern tramor. Yr oedd yn bwysig bod ar bobl eisiau dysgu ieithoedd – neu gallai hyn ostwng graddau arholiadau myfyrwyr.
- Ategodd un aelod yr awgrym (a wnaed yn gynharach yn yr adolygiad) o addysgu pob plentyn oed meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr oedd yna gryn ddiddordeb mewn gweld sut y byddai'r disgyblion yn teimlo am y dull gweithredu hwn pe baent hwy yn dod yn rhieni. Teimlai un disgybl fod y cynnig yn ymddangos yn gul: pe datblygwyd y Gymraeg ar raddfa mor anferthol, mae'n bosibl y byddai'r siaradwyr di-Gymraeg yn teimlo wedi'u hallgáu a'u hynysu.
- Cafwyd peth trafod ar sut y dylid strwythuro ysgolion: ysgolion uniaith ar wahân a/neu ysgolion dwyieithog. Yr oedd gan y disgyblion deimladau cymysg: yr oedd yn well gan rai ysgolion uniaith Saesneg ac ysgolion uniaith Gymraeg ar wahân, tra teimlai eraill fod ysgolion dwyieithog yn fwy o fudd.

2.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r disgyblion am fynychu a llongyfarchodd hwy ar eu gonestrwydd a'u diffuantrwydd. Ategodd y pwyllgor sylwadau'r Cadeirydd. Pwysleisiodd y Cadeirydd y pwysigrwydd o weithredu strategaeth a fyddai'n gwneud y profiad o addysgu ac astudio'r iaith Gymraeg yn brofiad plaserus.

**Eitem Tri: Cofnodion cyfarfod 24 Ebrill 2002**

**Papur: ELL 07-02(mins)**

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**